30 mlynedd

COMISIWN CYDRADDOLDEB HILIOL

# Tir Cyffredin

## Cydraddoldeb, cysylltiadau hiliol da a safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig

Adroddiad ymchwiliad gan y CRE yng Nghymru a Lloegr

# CRYNODEB

## Rhagarweiniad




Mae cysylltiadau rhwng Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig ac aelodau eraill o'r cyhoedd yn achos pryder arbennig, gyda phobl o'r grwpiau hyn yn aml yn byw bywydau ar wahân, cyfochrog. Mae arwyddion 'Dim Teithwyr' yn gyffredin, ac mae'r ymdriniaeth gan y cyfryngau yn tueddu i fod yn elyniaethus. Mae argymhellion ar gyfer safleoedd awdurdodedig yn denu gwrthwynebiad lleol cryf ac mae ymddangosiad gwersylloedd a datblygiadau heb eu hawdurdodi yn achosi cryn densiwn yn lleol.

Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig sydd â'r cyfleoedd bywyd gwaelaf o unrhyw grŵp ethnig heddiw: mae disgwyliadau bywyd dynion a merched ddeng mlynedd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol; mae mamau Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig ugain gwaith yn fwy tebygol na mamau yng ngweddill y boblogaeth i fod wedi profi marwolaeth plentyn; ac yn 2003, enillodd llai na chwarter plant Sipsiwn bump TGAU ar raddau A* i C o'i gymharu â chyfartaledd cenedlaethol o ychydig dros hanner.

Rhan o'r rheswm am hyn yw'r prinder sylweddol o safleoedd symudol a pharhaol awdurdodedig, gyda'r llywodraeth yn amcangyfrif y bydd angen rhwng 2,500 a 4,000 yn fwy o leiniau gwersylla erbyn 2007. Dengys data a gasglwyd gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (ODPM) fod 5,901 o garafannau ar safleoedd cyhoeddus wedi eu hawdurdodi a 4,890 ar safleoedd preifat wedi eu caniatáu yn Lloegr yn Ionawr 2004. Fodd bynnag, roedd 1,594 yn fwy ar dir nad oedd yn eiddo i Sipsiwn a Theithwyr, heb awdurdodiad, ac 1,977 ar dir oedd yn eiddo iddynt, ond a oedd wedi ei ddatblygu heb ganiatâd cynllunio. Lleolid oddeutu hanner y safleoedd wedi eu hawdurdodi mewn ardaloedd nad oedd yn addas o gwbl ar gyfer defnydd preswyl, yn aml yn agos at draffyrdd neu ffyrdd mawr, tomennydd sbwriel, gweithgaredd diwydiannol neu waith carthffosiaeth.

Ym mis Hydref 2004, lansiodd y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol (CRE) ymchwiliad i archwilio trefniadau awdurdodau lleol ar gyfer cynllunio, darparu a rheoli safleoedd, yng nghyd-destun eu dyletswydd statudol i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a chysylltiadau hiliol da. Wrth fesur y dystiolaeth edrychodd y CRE yn arbennig ar sut yr oedd y trefniadau hyn yn effeithio ar gysylltiadau hiliol mewn cymunedau lleol, ac ar gyfleoedd bywyd i Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig. Ystyriodd yr ymchwiliad hefyd gwestiwn tai confensiynol i Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig, a rôl yr heddlu mewn plismona safleoedd a rheoli gwersylloedd heb eu hawdurdodi. Roedd pwnc cyflogaeth, a

sut mae trefniadau safleoedd yn effeithio ar gyfleoedd i gael swyddi, y tu hwnt i gwmpas yr ymchwil, er bod y maes pwysig hwn yn haeddu sylw yn y dyfodol.

Mae hwn yn grynodeb o adroddiad yr ymchwiliad, sydd wedi cynhyrchu'r dystiolaeth awdurdodol gyntaf ynghylch i ba raddau y mae awdurdodau lleol yn cwrdd â'u dyletswydd statudol i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a chysylltiadau hiliol da yn eu gwaith ar safleoedd Sipsiwn.

## Ymagweddau at yr ymchwil

Seiliwyd yr ymchwiliad ar dair ymagwedd at gasglu tystiolaeth gan unigolion a sefydliadau.

- Anfonwyd holiadur manwl mewn tri rhan at bob un o'r 410 awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr, a chafwyd 236 o ymatebion (58%).

- Gwnaed dadansoddiad manwl ar safleoedd mewn naw o ardaloedd awdurdodau lleol, gwledig a threfol, gyda phoblogaethau o faint amrywiol o Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig. Archwiliwyd dogfennau swyddogol perthnasol a dilynwyd hyn gan gyfweliadau gyda phrif weithredwyr, cynghorwyr, swyddogion yn gweithio ym maes cynllunio, cydraddoldeb, y wasg, cyfreithiol, tai a digartrefedd, addysg Teithwyr, gorfodaeth a rheoli safleoedd. Cyfwelwyd hefyd â swyddogion yr heddlu lleol, staff iechyd a chynrychiolwyr y sector gwirfoddol ac mewn awdurdodau dwy haen, swyddogion y cyngor sir yn ogystal.

- Arweiniodd galwad gyhoeddus am dystiolaeth, a ategwyd gan geisiadau uniongyrchol at Wasanaethau Addysg Teithwyr a heddluoedd, ac ymweliadau i safleoedd detholedig, at 403 o ymatebion, oddi wrth ddarparwyr iechyd ac addysg, grwpiau cefnogaeth lleol, Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig, aelodau eraill o'r cyhoedd a nifer o rai eraill oedd â diddordeb.

## Fframwaith cyfreithiol a pholisi

Ers Ebrill 2001, mae awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol, heddluoedd a chynghorau plwyf a chymuned (yng Nghymru) wedi bod â dyletswydd gyfreithiol i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a chysylltiadau hiliol da. Nod sylfaenol y ddyletswydd, a gyflwynwyd mewn ymateb i ymchwiliad Stephen Lawrence, yw sicrhau fod awdurdodau cyhoeddus yn ystyried goblygiadau eu gwaith ym mhob maes ar gyfer gwahanol grwpiau hiliol, ac ar gyfer cysylltiadau rhyngddynt, ac yn cymryd camau i wella'r canlyniadau.

Mae Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig wedi eu cydnabod gan y llysoedd fel dau grŵp ethnig penodol, felly maent yn cael gwarchodaeth lawn gan y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol. Mae'r llysoedd wedi ei gwneud yn glir nad yw teithio yn nodwedd ddiffiniol o'r grwpiau hyn, ond yn ddim ond un ymysg eraill. Mae hyn

yn bwysig, oherwydd y credir bod mwyafrif y 300,000 a amcangyfrifir o Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig sy'n byw ym Mhrydain yn byw mewn tai confensiynol, rhai o ddewis, rhai oherwydd prinder difrifol o safleoedd Sipsiwn.



**Ffair draddodiadol.**

Mae'r amcangyfrif o 90,000 i 120,000 sy'n byw mewn carafannau yn teithio i amrywiol raddau; mae nifer fechan yn hynod symudol, mae rhai yn teithio yn ystod misoedd yr haf yn unig ac mae rhai yn teithio ychydig neu ddim o gwbl, ond yn dal i ddymuno byw mewn carafán, gyda'u teulu estynedig o'u cwmpas. Mae prinder safleoedd preswyl a symudol awdurdodedig yn golygu fod llawer, gan gynnwys y rhai hynny y byddai'n well ganddynt lety preswyl tymor hir, yn gwersylla yn anghyfreithlon, gan arwain at nomadiaeth 'gorfodol' rheolaidd oherwydd eu bod yn cael eu troi allan yn gyson. Ar gyfer y rhai hynny nad ydynt yn teithio, mae teithio yn fwy o 'ffordd o feddwl' nag o realiti o ddydd i ddydd. Mae'r llysoedd wedi penderfynu fod nomadiaeth a byw mewn carafan yn adlewyrchu treftadaeth ddiwylliannol Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig ac nid dim ond yn ddewis o ran ffordd o fyw y gellir ei anwybyddu.

Mae newidiadau diweddar mewn deddfwriaeth a pholisi cenedlaethol ynglŷn â safleoedd Sipsiwn yn rhoi cyfle a rhwymedigaeth newydd ar awdurdodau lleol i ymdrin â phrinder safleoedd drwy'r systemau a ddefnyddiant i ddarparu tai i weddill y cyhoedd. Mae'r ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a chysylltiadau hiliol da yn darparu fframwaith cadarnhaol i fynd â'r gwaith hwn ymlaen o'i mewn, gan sicrhau cydraddoldeb ar gyfer pob grŵp hiliol a chreu cymunedau wedi eu hintegreiddio yn dda. Nid yw integreiddio yn golygu bod yn rhaid i bobl roi'r gorau i'w traddodiadau a'u hetifeddiaeth ddiwylliannol, ond yn hytrach mae'n golygu bod y gymuned yn gyffredinol yn cael ei chyfoethogi gan amrywiaeth, a bod pobl o wahanol gefndiroedd yn cyfranogi mewn bywyd cymunedol gyda'i gilydd, ac yn rhannu hawliau a chyfrifoldebau cyfartal.

# Y canfyddiadau

## Arfer da

Roeddem yn falch o ddod o hyd i enghreifftiau o arfer da ym mhob maes o'n hymchwil, oherwydd bod hyn yn dystiolaeth glir ei bod yn bosibl goresgyn yr holl anawsterau y bu i ni eu canfod mewn mannau eraill. Canfuwyd:

- cynghorwyr plwyf/cymuned lleol sy'n rhoi arweiniad cryf ynglŷn â phwysigrwydd llety addas i bawb, gan gynnwys Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig, ac sy'n hyrwyddo mwy o ddealltwriaeth ynghylch amgylchiadau gwahanol pobl;
- awdurdodau lleol sy'n cynnal safleoedd cyhoeddus a reolir yn dda ac y rhoddir adnoddau digonol ar eu cyfer, ac sy'n ei gwneud yn haws i Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig gymryd rhan ym mywyd y gymuned;
- awdurdodau lleol sy'n hyrwyddo cysylltiadau hiliol da, ac yn ymdrin yn llwyddiannus ag unrhyw broblemau a all arwain at densiynau rhwng gwahanol rannau o'r gymuned;




**Safle gwledig wedi ei reoli'n dda.**

- awdurdodau lleol sydd wedi gwneud cyfrifoldeb am Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig yn rhan arferol o'u gwaith prif ffrwd, ar lefelau strategol a gweithrediadol, ac wedi cysylltu gwaith ar safleoedd â'u polisïau a'u cynlluniau ehangach ar gyfer tai;
- awdurdodau lleol sy'n annog Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig i gymryd rhan mewn llunio penderfyniadau yn lleol a chwarae mwy o ran ym mywyd y gymuned, sy'n cael canlyniadau cadarnhaol ar gyfer cysylltiadau cymunedol; a

- heddluoedd sy'n trin Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig fel aelodau o'r gymuned leol ac sy'n cymryd camau i ennill eu hymddiriedaeth a'u hyder, gan arwain yn ei dro at fwy o barodrwydd ymysg Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig i adrodd am droseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac i roi tystiolaeth y gall yr heddlu ei defnyddio i weithredu.

### Ymgwedd sy'n gwella cysylltiadau hiliol

Roedd tensiynau ynghylch nifer o wersylloedd heb eu hawdurdodi wedi ei gwneud yn glir i'r cyngor fod arnynt angen safle priodol. Enillodd arweinydd y cyngor gytundeb i hyn ar draws y pleidiau a chanfu swyddogion leoliadau posibl. Gofynnodd y cyngor i'r cyngor plwyf lleol am gefnogaeth yn gynnar. Yna ymgynghorodd â thrigolion lleol, gan gynnwys Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig, ynglŷn â'r argymhellion, drwy gyfarfodydd bychain wedi eu cadeirio gan arweinydd ffydd lleol. Gallai'r trigolion ddefnyddio canolfannau galw i mewn i drafod unrhyw bryderon gyda'r cynghorwyr. Mae'r cyngor bellach yn gwneud cynlluniau ar gyfer rheoli'r safle. Mae wedi cyhoeddi taflenni yn ddiweddar yn rhoi gwybodaeth ffeithiol i bobl am Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig, i gael gwared ar unrhyw gamargraffiadau.

## Cydraddoldeb hiliol a chysylltiadau hiliol da

- Mae Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig yn byw yn neu yn mynd drwy 91 y cant o ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr, a dywed 13 y cant o awdurdodau mai hwy yw'r grwpiau mwyaf o leiafrifoedd ethnig yn eu hardal.

- Mae'n ymddangos nad yw cynghorwyr a staff awdurdodau lleol mewn awdurdodau trefol a gwledig yn deall fod Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig yn grwpiau ethnig, a bod ganddynt anghenion diwylliannol arbennig. Mae'r diffyg dealltwriaeth hwn yn arbennig o amlwg ymhlith cynghorwyr plwyf a chymuned, gyda llawer ohonynt ddim ychwaith yn deall beth yw cydraddoldeb hiliol a beth mae'r ddyletswydd statudol yn galw amdani.

"Dyw'r cyngor hwn ddim angen nonsens fel dathlu amrywiaeth." *Cynghorydd*

- Mae awdurdodau lleol gyda phoblogaethau mawr o leiafrifoedd ethnig wedi gwneud mwy o waith ar gydraddoldeb hiliol nag eraill. Ond nid yw Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig fel arfer yn cael eu cynnwys yn y gwaith hwn, oherwydd tueddir i ganolbwyntio ar leiafrifoedd ethnig heb fod yn wyn.

- Tuedda Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig sy'n byw mewn carafannau i fyw mewn ardaloedd mwy gwledig, lle mae'r boblogaeth o leiafrif ethnig yn llai, lle ceir llai o ymwybyddiaeth ynglŷn â chydraddoldeb hiliol, a lle mae llai o waith yn cael ei wneud i sicrhau fod yr holl grwpiau ethnig yn elwa o wasanaethau cyhoeddus.

## Tensiynau cymunedol a safleoedd Sipsiwn

- Dywed dros ddwy ran o dair (67%) o awdurdodau lleol eu bod wedi gorfod delio â thensiynau rhwng Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig ac aelodau eraill y cyhoedd. Rhoddant dri esboniad am hyn:
    - dywed 94 y cant o'r awdurdodau hyn fod gwersylloedd heb eu hawdurdodi yn un o'r prif broblemau;
    - mae 46 y cant yn tynnu sylw at geisiadau cynllunio a gorfodi; ac
    - mae 51 y cant yn siarad am elyniaeth gyffredinol ymhlith y cyhoedd.
- Mae tensiynau cymunedol yn bennaf ar ffurf cwynion gan drigolion lleol i'r cyngor (61%) ac ymdriniaeth elyniaethus gan y cyfryngau (43%).
- Canlyniad cyffredinol mwyaf sylweddol y tensiynau hyn yw gwrthwynebiad cyhoeddus i ddarparu mwy o safleoedd cyhoeddus neu breifat.

### Methiant i ymdrin â thensiwn cymunedol a hyrwyddo cysylltiadau hiliol da

- Mae llawer o awdurdodau heb ystyried y posibilrwydd y gall tensiynau ynghylch gwersylloedd a datblygiadau heb eu hawdurdodi fod yn gysylltiedig â'u methiant i ddarparu a rheoli safleoedd, gan feio Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig yn hytrach am ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Dywed bron i hanner yr awdurdodau lleol (49%) gyda safleoedd cyhoeddus nad ydynt wedi gwneud unrhyw beth i hyrwyddo cysylltiadau da rhwng Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig ac eraill yn y gymuned.
- Dywed naw allan o ddeg awdurdod lleol sy'n adrodd ynghylch tensiynau cymunedol fod gwersylloedd heb eu hawdurdodi yn achos, ond dim ond un o bob deg o awdurdodau sydd wedi nodi gwersylloedd heb eu hawdurdodi fel rhywbeth sy'n berthnasol i gydraddoldeb hiliol a chysylltiadau hiliol yn eu cynlluniau cydraddoldeb hiliol statudol.
- Hyd yn oed lle ceir tystiolaeth o waith i hyrwyddo cysylltiadau hiliol da, mae'r rhan fwyaf o'r enghreifftiau yn enghreifftiau o ddigwyddiadau diwylliannol sy'n digwydd unwaith yn unig nad oes ganddynt unrhyw effaith uniongyrchol ar achosion gwaelodol y tensiwn.
- Y mae lleiafrif bychan o Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig yn ymddwyn yn wrthgymdeithasol, er enghraifft drwy ollwng gwastraff masnachol. Tuedda'r digwyddiadau hyn i fod yn ffocws sylw gan y cyfryngau, gan atgyfnerthu stereoteipiau negyddol a'i gwneud yn anodd i eraill o'r grwpiau hyn gysylltu'n gadarnhaol gyda gweddill y gymuned.
- Mae llawer o awdurdodau lleol yn peryglu chwyddo tensiynau lleol drwy eu polisïau, eu gweithredu, a'u cyfathrebu â'r cyhoedd, fel y nodir gan yr enghraifft ganlynol.

### Ymagwedd sy'n amharu ar gysylltiadau hiliol

Mae datblygiad heb ei awdurdodi wedi arwain at anesmwythyd difrifol ymhlith trigolion lleol. Roedd yr ymdriniaeth gan y cyfryngau yn elyniaethus ac roedd y cyngor wedi derbyn nifer o gwynion oddi wrth y cyhoedd ac adroddiadau am ymosodiadau hiliol ar y safle. Ychydig iawn o leiniau cyhoeddus yr oedd y cyngor yn eu darparu, roedd ganddo bolisi cynllunio cyfyngol ar geisiadau preifat, ac roedd yn dilyn polisi gorfodi cryf iawn ar wersylloedd a datblygiadau heb eu hawdurdodi. Nid oedd wedi gwneud unrhyw gysylltiad rhwng ei bolisïau gorfodi a'i bolisïau safleoedd, ac nid oedd wedi gwneud dadansoddiad cost-mantais o ddarparu mwy o safleoedd yn erbyn defnyddio gorfodaeth. Roedd cynghorwyr wedi gwneud datganiadau i'r wasg yn tynnu sylw at yr angen am orfodi'r ddeddf yn erbyn y datblygiad, a'r gost uchel i'r cyhoedd o gymryd camau o'r fath. Nodwyd bod tensiynau lleol wedi cynyddu yn dilyn hyn.

## Arweinyddiaeth leol a threfniadau trefniadol

### Diffyg arweinyddiaeth

- Mae llawer o gynghorwyr awdurdodau lleol a chynghorau plwyf a chymuned yn rhoi ychydig neu ddim arweinyddiaeth ynghylch mater safleoedd Sipsiwn. Nid yn unig nad ydynt yn cymryd unrhyw gamau o gwbl, ond maent yn gwrthwynebu darparu safleoedd, neu wasanaethau ar gyfer safleoedd, gan sicrhau eu hetholwyr na fydd anghenion Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig yn cael eu bodloni.

"Os ydynt am gael lle i aros, dylent brynu tŷ. Os ydynt yn dweud na fedrant fforddio hynny, dydyn nhw ddim gwahanol i unrhyw un arall – mae'n berthnasol i bawb." *Cynghorydd plwyf*

- Mae rhai cynghorwyr plwyf a chymuned, wedi sefydlu, neu wedi chwarae rhan weithredol mewn grwpiau lleol sy'n lobïo yn erbyn safleoedd.

- Nid yw'r rhan fwyaf o gynghorwyr plwyf a chymuned lleol yn gwneud unrhyw ymdrech i gysylltu â neu i gynrychioli Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig fel y byddent yn gwneud gyda thrigolion lleol eraill, hyd yn oed pan fo Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig wedi byw yn neu deithio drwy'r ardal am lawer o flynyddoedd. Mewn rhai achosion mae hyn oherwydd nad yw llawer ohonynt wedi cofrestru i bleidleisio, neu oherwydd nad ydynt yn ymarfer eu hawlio pleidleisio.

- Mae cynghorwyr lleol gyda chyfrifoldeb am gydraddoldeb fel arfer yn gadael Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig allan o'u brîff, tra bo'r rhai hynny gyda chyfrifoldeb am ddarparu safleoedd neu orfodaeth fel arfer yn methu â gwneud y cysylltiad gyda pholisïau'r awdurdod ar gydraddoldeb.

- Mae llawer o gynghorwyr yn amharod i ddarparu safleoedd, na gwasanaethau ar gyfer safleoedd, heb ddyletswydd benodol ar lywodraeth leol i wneud hynny.

Mae'n well ganddynt agweddau anffurfiol nad ydynt yn cael llawer o sylw, i osgoi beirniadaeth leol; er enghraifft drwy oddef gwersylloedd heb eu hawdurdodi fel dewis arall i ddarparu safleoedd. Mae 'goddef' gwersylloedd heb eu hawdurdodi yn y tymor hir yn rhoi rhywle i fyw i Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig ond heb y sicrwydd a'r gwasanaethau a fyddai ganddynt ar safle parhaol, a heb iddynt allu cyfrannu at y gymuned, er enghraifft drwy dalu'r dreth gyngor (sy'n ddyledus dim ond ar ôl i wersyll heb ei awdurdodi fodoli am ddeuddeg mis). Yr unig beth a wna hyn yw cynyddu tensiynau.

### Trefniadau trefniadaethol gwan

- Mae safleoedd Sipsiwn a gwasanaethau ar gyfer safleoedd yn torri ar draws nifer o adrannau, ac yn croesi nifer o haenau o awdurdodau ym mhob rhanbarth, gan wneud dyrannu cyfrifoldeb, a chydlynu gwaith yn effeithiol, yn arbennig o bwysig. Fodd bynnag, mae llawer o awdurdodau lleol yn methu â chydlynu gwaith gwahanol adrannau, naill ai ar lefel strategol neu weithredol, neu i gynllunio pa adran a ddylai fod â chyfrifoldeb cyffredinol am safleoedd.

"Maent yn cynnwys 'cyfrifoldeb am safleoedd Sipsiwn' o dan adran rheoli pla... mae'n dweud llawer am sut maent yn ein hystyried." *Sipsiwn*

- Mae llawer o awdurdodau lleol yn methu â dyrannu cyfrifoldeb am safleoedd Sipsiwn a gwasanaethau ar gyfer safleoedd ar lefel digon uchel, nac i wneud yn siŵr fod swyddogion ar y llinell flaen yn cysylltu'n uniongyrchol â Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig. Y canlyniad yw nad oes unrhyw ymagwedd strategol at y maes gwaith hwn, gan arwain at wasanaethau heb eu cydlynu a'u cynllunio, neu at ddatblygu strategaethau heb unrhyw gyswllt ar y llinell flaen gyda defnyddwyr posibl y gwasanaeth, fel nad yw'r gwasanaethau a ddarperir yn bodloni anghenion gwirioneddol.

- Lle bo uwch reolwyr wedi cael cyfrifoldeb cyffredinol am safleoedd a gwasanaethau i Sipsiwn, maent yn aml yn canolbwyntio yn bennaf neu yn gyfan gwbl ar orfodi, ac mae'r angen am lety sy'n arwain at safleoedd sydd heb eu hawdurdodi yn y lle cyntaf yn dal heb ei fodloni.

- Mae llawer o awdurdodau lleol yn cyflogi swyddogion cyswllt Sipsiwn a Theithwyr (GTLO) sy'n gyfrifol am ychwanegu gwerth at wasanaethau a ddarperir ar safleoedd. Yn ymarferol, mae'r rhain a swyddogion arbenigol eraill, megis Gwasanaethau Addysg Teithwyr, yn gwneud mwy na hyn, gan gael eu hunain yn cymryd mwy o gyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau sylfaenol i Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig megis rhoi cyngor ynglŷn â chefnogaeth i'r henoed neu gyngor am ddigartrefedd.

Pryd bynnag mae gan rywbeth y gair 'Teithiwr' arno, mae'n cyrraedd fy nesg i. 'Dy waith di yw e, gwna fe.' *GTLO*

- Hyd yn oed pan fo cyfrifoldeb yn cael ei ddyrannu ar lefelau strategol a gweithredol, ychydig o gysylltiad sydd yn aml rhwng y ddau, yn arbennig mewn awdurdodau gyda dwy haen, lle mae cyfrifoldeb am bolisïau allweddol yn nwylo'r cyngor dosbarth, ond lleolir GTLO sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig yn y cyngor sir.

## Strategaethau ar gyfer safleoedd Sipsiwn

### Diffyg fframwaith polisi cydlynol

- Golyga absenoldeb polisi cyffredinol ynghylch darparu safleoedd, a gwasanaethau ar gyfer safleoedd, fod gwaith awdurdodau lleol yn tueddu i fod yn ad hoc ac yn ymatebol, yn cael ei lywio gan gwynion y cyhoedd yn hytrach na chan gynllun strategol tymor hir. Mae pa bolisi bynnag sy'n bodoli yn un sydd yn anghyson, neu wedi ei gysylltu â pholisi ar wasanaethau prif ffrwd, megis gwasanaethau cymdeithasol ac addysg. Mae'r ymagwedd hon yn gwbl wahanol i'r hyn a wna awdurdodau yn achos tai cymdeithasol.

- Tra bo Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig yn byw yn neu yn teithio drwy dros 90 y cant o ardaloedd awdurdodau lleol, nid ydynt fel arfer yn cael eu cynnwys yn y weledigaeth gyffredinol sydd gan bob awdurdod lleol am ei gymuned, un y mae ei strategaethau yn llifo ohoni. O ganlyniad nid yw eu hanghenion yn cael eu cynnwys yn strategaethau corfforaethol yr awdurdod, boed hynny ynglŷn â defnydd tir, adfywio, tai, cydlyniad cymunedol neu gydraddoldeb. Dim ond chwarter yr awdurdodau lleol sy'n cynnwys Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig yn benodol yn eu cynlluniau cydraddoldeb hiliol statudol.

- Gadewir Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig allan o strategaethau allweddol, yn rhannol oherwydd bod llawer o swyddogion a chynghorwyr yn anghofio'r ffaith eu bod yn grwpiau ethnig; yn rhannol oherwydd nad oes unrhyw wybodaeth am eu hanghenion, ac yn rhannol oherwydd bod y rhain yn gysylltiedig yn bennaf â safleoedd, ac nid gyda gwasanaethau sylfaenol eraill, fel sy'n gyffredin gydag aelodau eraill y cyhoedd.

- Mae gan lawer mwy o awdurdodau lleol bolisïau ynglŷn â gorfodi nag sydd ganddynt ar ddarparu safleoedd; tra bo gan 76 y cant bolisïau ar reoli gwersylloedd heb eu hawdurdodi, dim ond 27 y cant sydd â pholisïau ar ddarparu safleoedd, ac nid oes gan lawer bolisïau o gwbl ynghylch rheoli safleoedd cyhoeddus, yn wahanol i'w hagwedd at dai cymdeithasol.

- Nid yw polisïau ar orfodi, cynllunio, (ar gyfer yr holl ddefnydd tir), darparu safleoedd a thai cymdeithasol wedi eu cysylltu â'i gilydd, a'r canlyniad yw na all awdurdodau weld sut y caiff penderfyniad a gymerir mewn un maes, megis i werthu tir neu i symud pobl allan o wersyll, effaith mewn un arall, er enghraifft, drwy leihau'r tir sydd ar gael ar gyfer safleoedd, neu achosi digartrefedd. Oherwydd nad oes strategaeth gyfathrebu ystyrlon yn bodoli ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig mae negeseuon sy'n gwrthdaro â'i gilydd yn ymddangos.

- Tuedda polisïau awdurdodau lleol ar gynllunio ar gyfer a darparu safleoedd Sipsiwn (lle bo'r polisïau hyn yn bodoli) i fod yn anffurfiol ac yn ddi-ffocws, yn gwbl wahanol i'r rhai yn ymwneud â thai cymdeithasol; er enghraifft maent yn defnyddio meini prawf amwys ac sydd weithiau'n wrthgyferbyniol ar gyfer safleoedd addas yn hytrach na nodi lleoliadau penodol ar gyfer safleoedd. Yn wahanol i strategaethau ar gyfer tai cymdeithasol, mae polisi ynghylch safleoedd cyhoeddus yn aml yn llawn o ddatganiadau cyffredinol ac ni chyfeirir at unrhyw amserlen, hyd yn oed pan fo anghenion wedi eu mesur.

### Polisïau a seilir ar wybodaeth brin

- Nid yw polisïau ar safleoedd Sipsiwn (lle bônt yn bodoli) wedi eu seilio ar ymgynghori cyhoeddus na gwybodaeth am anghenion pobl am wasanaethau. Ychydig mae'r rhan fwyaf o awdurdodau yn ei wneud i lenwi bylchau mewn gwybodaeth, ac nid ydynt ychwaith yn defnyddio tystiolaeth am densiynau cymunedol i lunio eu polisïau.

- Nid yw mwyafrif helaeth yr awdurdodau lleol yn casglu data monitro ethnig ynglŷn â chanlyniadau eu gwasanaethau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig yn eu hardal, er gwaethaf cyngor y CRE i gynnwys is-gategorïau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig yn eu systemau monitro ethnig lleol.

- Mae awdurdodau yn casglu rhywfaint o wybodaeth am Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig drwy'r Gwasanaeth Addysg Teithwyr a'r cyfrif carafannau a wneir bob dwy flynedd, ond nid yw hyn fel arfer yn cael ei ddefnyddio fel sail ar gyfer neu i gynllunio eu gwasanaethau.

- Ychydig o awdurdodau lleol sydd wedi mesur y modd y bydd eu polisïau ar safleoedd Sipsiwn yn effeithio ar gydraddoldeb hiliol, yn unol â'u gofynion statudol; nid yw unrhyw rai ohonynt wedi hyd yn oed ystyried eu heffeithiau ar gysylltiadau hiliol, er bod dwy ran o dair yn sôn am densiynau yn eu hardaloedd ar y pwnc hwn.

- Dim ond 34 y cant o awdurdodau lleol sydd wedi gwneud asesiad o angen Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig am lety, ac nid oes gan 28 y cant unrhyw gynlluniau i wneud hynny. Golyga hyn eu bod yn methu â datblygu polisïau doeth ar gyfer safleoedd, nac ymdrin â gwersylloedd a datblygiadau heb eu hawdurdodi, sy'n deillio o anghenion heb eu bodloni.

- Dim ond naw y cant o'r awdurdodau lleol sydd wedi newid eu polisïau gwersylla heb awdurdod ers Mai 2002 (pan ddaeth y ddyletswydd benodol i lunio cynllun cydraddoldeb hiliol i rym) a asesodd yn gyntaf eu heffeithiau tebygol ar gydraddoldeb hiliol a chysylltiadau hiliol; a dim ond chwech y cant sydd wedi monitro eu heffeithiau ers y dyddiad hwnnw.

- Nid yw llawer o awdurdodau lleol yn ymgynghori'n rhagweithiol ynghylch polisïau ar gyfer safleoedd Sipsiwn, gan arwain at rwystredigaeth yn lleol nad yw pryderon pobl yn cael eu gwrando. Mae eraill yn galw cyfarfodydd cyhoeddus mawr, sy'n ei gwneud yn anodd ymchwilio i bryderon go iawn, yn atal y rhai hynny sydd o blaid darparu safleoedd rhag siarad, yn gwneud Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig sy'n mynychu i deimlo o dan fygythiad ac yn benderfynol o'u hosgoi yn y dyfodol, a gwneud niwed i gysylltiadau cymunedol.

"Bu'n rhaid i mi gael plismon i'm hebrwng allan o un cyfarfod. Wedi i mi drio dweud 'mae'r rhain yn fodau dynol, maent angen llety addas,' cefais fy heclo, gweiddwyd arnaf a chefais fy mygwth... Roeddwn yn fy nagrau, doeddwn i ddim wedi sylweddoli faint o elyniaeth oedd yno."
*Swyddog TES*

- Nid yw dwy ran o dair o'r awdurdodau yn addasu eu dulliau ymgynghori i osgoi'r rhwystrau y mae rhai Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig yn eu hwynebu, megis lefelau isel o lythrennedd. Mae llawer hefyd yn ymgynghori â mudiadau Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig cenedlaethol yn hytrach na chysylltu â phobl leol o'r grwpiau hyn.

## Darparu gwasanaethau

### Gwasanaethau is na'r safon a heb eu cydlynu

- Nid yw Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig yn cael yr un safonau â defnyddwyr gwasanaeth eraill o ran y gwasanaethau a dderbyniant. Oherwydd nad oes y fath beth â strategaeth fras, tuedda gwasanaethau ar gyfer safleoedd Sipsiwn, megis gwaith atgyweirio a chyfleusterau sylfaenol, fod yn rhai ad hoc, yn ymatebol ac wedi eu cydlynu'n wael. Mae'r prif adrannau gwasanaeth, megis tai a digartrefedd, yn methu ag addasu eu gwasanaethau i anghenion arbennig Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig yn yr un modd ag ar gyfer aelodau eraill y cyhoedd. Mae ansawdd gwael llawer o wasanaethau yn amlwg yn yr holl feysydd a restrir isod.



**Safle awdurdod lleol o dan drosffyrdd mewn ardal drefol.**

### Safleoedd

- Mae llawer o safleoedd wedi eu lleoli mewn amgylcheddau sydd wedi eu llygru, ymhell oddi wrth wasanaethau lleol. Mae'r lleiniau yn aml yn orlawn ac mae'r cyfleusterau ymhell islaw'r safon a ddisgwylir mewn tai cymdeithasol. Mae rhai GTLO yn cwrdd â'r prinder safleoedd drwy 'oddef' gorboblogi oherwydd nad oes unrhyw ddewis arall ar gael.

- Dim ond dwy ran o dair o awdurdodau gyda safleoedd cyhoeddus sydd â threfniadau i fonitro ansawdd eu gwasanaethau; yn ymarferol, tuedda archwiliadau i fod yn rhai anffurfiol, heb eu cynllunio ac wedi eu hysgogi gan gwynion oddi wrth drigolion y safle.

- Mae llawer o awdurdodau lleol yn dod â rheolwyr safle i mewn o'r tu allan heb gytuno ar y safonau gwasanaeth sylfaenol a fydd yn hybu cyfle cyfartal a chysylltiadau hiliol da, neu wirio bod hyn yn digwydd.

- Mae gan rai awdurdodau bolisi dyrannu ar gyfer safleoedd cyhoeddus, ond yn ymarferol maent yn gadael y gwaith o ddyrannu lleiniau i drigolion y safle. Gall hyn olygu fod teuluoedd yn cael eu troi ymaith er eu bod yn bodloni'r meini

prawf ffurfiol. Y cyfiawnhad dros y dull hwn yw sicrhau cysylltiadau da ymhlith trigolion y safle, ond gall arwain at wahaniaethu hiliol yn erbyn naill ai Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig oherwydd gall safle ddiweddu yn cael ei reoli gan un grŵp ethnig.

### Cynllunio

- Mae ceisiadau cynllunio ar gyfer safleoedd Sipsiwn yn llawer llai tebygol o gael eu cymeradwyo na'r rhai hynny ar gyfer mathau eraill o ddatblygiad. Dywed llawer o awdurdodau lleol fod hyn oherwydd y gall y safleoedd fod mewn lleoliadau anaddas, neu oherwydd ceisiadau gwan. Ond ychydig y maent yn ei wneud i helpu Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig gyda'u ceisiadau; dim ond un rhan o bump sy'n cynnig cyngor ynghylch ble i brynu tir, ac mae'r broblem yn cael ei dwysáu gan bolisïau nad sy'n ei gwneud yn glir pa dir fyddai'n addas.

- Ychydig o awdurdodau lleol sydd â pholisi ar gyfer dynodi, ac ymdrin â gwrthwynebiadau i geisiadau cynllunio sydd, neu a all fod, yn hiliol. Golyga hyn fod sylwadau hiliol yn cyrraedd pwyllgorau cynllunio, yn groes i'r canllawiau oddi wrth y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol.

### Gwersylloedd heb eu hawdurdodi

- Nid yw llawer o awdurdodau lleol yn darparu cyfleusterau sylfaenol ar gyfer gwersylloedd heb eu hawdurdodi, megis gwaredu gwastraff, gyda chanlyniadau amlwg ar gyfer trigolion y safle, yr amgylchedd a'r gymuned ehangach.

- Mae rhai swyddogion gorfodi yn pwyso am droi pobl allan heb ymgynghori yn gyntaf â'r swyddogion iechyd a diogelwch ac addysg arbenigol, sy'n golygu na allant gyflawni'r gwiriadau lles angenrheidiol. Mewn ymateb, mae gweithwyr




**Beiliaid preifat yn troi rhywun allan o wersyll heb ei awdurdodi.**
*Darparwyd y ffotograff gan bapur newydd* Welwyn & Hatfield Times

iechyd ac addysg yn darparu gwasanaethau sylfaenol i'r rhai hynny ar wersylloedd heb roi adroddiad yn eu cylch i swyddogion gorfodi.

- Mae ychydig dros hanner (51 y cant) o awdurdodau lleol wedi defnyddio beilïaid i droi Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig allan o wersylloedd heb eu hawdurdodi ers Ebrill 2001, ond nid yw dros ddwy ran o dair (62 y cant) o'r awdurdodau hyn wedi crybwyll eu cyfrifoldebau i sicrhau cysylltiadau hiliol da, ac osgoi gwahaniaethu, yn y contractau y maent wedi eu llunio.

### Tai

- Er y credir bod mwyafrif y Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig yn byw mewn tai confensiynol, nid oes unrhyw un yn sicr faint sy'n gwneud hynny mewn gwirionedd, na beth allai eu hanghenion arbennig fod.

- Mae gwasanaethau tai fel arfer wedi eu haddasu i anghenion gwahanol gleientiaid, ond anaml y mae hyn yn wir am Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig. Mae llawer o awdurdodau yn cydnabod y byddai'n well gan Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig fyw ar safleoedd, ond gan nad oes digon o'r rhain, ychydig a wnânt i wneud y llety y gallant ei ddarparu yn fwy addas, er enghraifft drwy ddarparu cefnogaeth tenantiaeth i'r rhai hynny sydd wedi symud yn ddiweddar o safleoedd. O ganlyniad mae llawer o Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig yn ei chael hi'n anodd cadw eu tenantiaethau, gan arwain at gylch o droi pobl allan, o dai i ddigartrefedd a gwersylloedd heb eu hawdurdodi, ac yna at gael eu troi allan eto.

- Nid yw'r gwasanaethau tai yn ymdrin yn briodol â honiadau gan Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig am aflonyddu hiliol, na gyda chwynion am a chan Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig am ymddygiad gwrthgymdeithasol. Y duedd yw cyfuno'r ddau gan dybio bod cwynion am aflonyddu hiliol gan Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig yn seiliedig ar ymddygiad gwrthgymdeithasol heb unrhyw ymchwiliad pellach.

### Plismona

- Nid yw heddluoedd bob amser yn defnyddio agwedd wedi ei ffocysu yn seiliedig ar achosion at ymdrin â throsedd neu ymddygiad gwrthgymdeithasol ymhlith Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig ar safleoedd, fel ag y maent yn gwneud gyda digwyddiadau sy'n ymwneud ag aelodau eraill o'r cyhoedd. Mae rhai yn cymryd agwedd gyffredinol at blismona safleoedd a rheoli gwersylloedd heb eu hawdurdodi, er enghraifft drwy gynnal cyrchoedd, neu drwy droi pawb ar wersyll cyfan allan oddi yno. Mae hyn yn golygu fod y grŵp yn gyffredinol yn talu'r pris am ymddygiad ychydig o unigolion, ac nad yw'r rhai hynny sy'n gyfrifol yn cael eu dal yn atebol yn unigol am yr hyn a wnânt.

- Mae methiant rhai heddluoedd i ymdrin yn effeithiol gyda throsedd yn effeithio ar drigolion safleoedd a all fod yn ddioddefwyr a'u cymdogion. Mae Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig wedi ei gwneud yn glir eu bod am i'r heddlu wneud gwell gwaith o ganfod a chosbi troseddwyr unigol yn eu cymunedau, a'u gwarchod yn y sefyllfaoedd hyn.

- Ychydig o heddluoedd sydd wedi ceisio creu ymddiriedaeth a hyder ymhlith Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig, gan dynnu ar eu profiad gyda lleiafrifoedd ethnig eraill, er eu bod yn cydnabod y gall diffyg hyder fod yn rhwystr gwirioneddol i gasglu'r wybodaeth a fyddai yn eu helpu i dargedu eu gwaith plismona yn well.

- Mae rhai heddluoedd neu swyddogion yn gweithredu mewn modd sy'n tanseilio'r protocolau a gytunwyd ar y cyd gan awdurdodau lleol a heddluoedd i reoli gwersylloedd heb eu hawdurdodi. Er enghraifft, er iddynt gytuno i 'oddef' gwersyll, mae rhai yn ymweld â'r gwersylloedd droeon i annog Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig i symud allan, fel dewis anffurfiol yn lle cael eu troi allan, ac yn eu dilyn i ofalu eu bod yn gadael yr ardal.

"Rydym mewn sefyllfa amhosib, rydym i fod yn canolbwyntio ar ddinasyddion gan adlewyrchu barn y gymuned. Pe baem yn adlewyrchu barn y gymuned mewn gwirionedd byddem i'r dde o Genghis Khan ... dyw'r gymuned ddim gyda ni." *Swyddog yr Heddlu*

### Ymddygiad gwrthgymdeithasol

- Fel gyda throsedd, nid yw rhai awdurdodau lleol a heddluoedd yn ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ar safleoedd drwy ganolbwyntio ar y digwyddiad unigol, ac maent naill ai'n methu ag ymchwilio i'r digwyddiad yn briodol neu yn cymryd agwedd gyffredinol. O ganlyniad, nid yw'r unigolion sy'n gwrthod derbyn cyfrifoldeb cymdeithasol, er enghraifft drwy ollwng gwastraff masnachol yn ddiwahaniaeth, yn cael eu dal yn gyfrifol. Mae labelu Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig, yn arbennig gan y cyfryngau lleol, a hefyd gan rai cynghorwyr lleol, yn arwain rhai Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig i gredu mai ychydig o ddiben sydd mewn ceisio gwahaniaethu eu hunain oddi wrth yr hyn a wneir gan leiafrif sy'n creu trwbl, ac mae hyn yn creu rhwystrau i greu perthynas ag aelodau eraill o'r cyhoedd.

## Monitro perfformiad

- Ychydig o wybodaeth sydd gan awdurdodau lleol am safon y gwasanaethau a ddarparant ar gyfer safleoedd, neu ba newidiadau a all fod yn angenrheidiol, oherwydd, yn wahanol i dai cymdeithasol, nid oes ganddynt unrhyw ddangosyddion perfformiad lleol ynglŷn â lleoliad, cynllun, ansawdd neu reolaeth safleoedd, p'run ai a yw'r gwasanaethau yn cael eu darparu'n fewnol neu o'r tu allan. Nid oes ganddynt ychwaith unrhyw ddata a allai daflu goleuni ar unrhyw wahaniaethau yng nghanlyniadau eu gwasanaethau, gan nad ydynt yn defnyddio categorïau ar wahân ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig yn eu systemau monitro, nac yn gwneud i fyny am hyn drwy chwilio am y wybodaeth mewn ffyrdd eraill.

- Mae absenoldeb data yn golygu nad yw problemau naill ai yn cael eu cydnabod nac yn cael eu trin tan yn llawer hwyrach, yn aml pan fo sefyllfa allan o reolaeth, gan arwain at fesurau eithafol, fel cau safle.

- Nid yw llawer o awdurdodau lleol wedi gwneud trefniadau i'w swyddogion arbenigol gael eu rheoli yn briodol, nac wedi cyflwyno dulliau ffurfiol o adrodd. Gwneir hyn yn waeth oherwydd diffyg cefnogaeth gorfforaethol, neu ddiffyg cynghorydd gyda chyfrifoldeb ffurfiol am les Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig.

- Nid yw'r dangosyddion perfformiad ar gyfer tai, digartrefedd na chynllunio yn cyfeirio'n benodol at Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig.

- Nid yw'r llywodraeth, y Comisiwn Archwilio, ac asiantaethau rheoleiddio ac arolygiaethau eraill yn gosod dangosyddion perfformiad cenedlaethol ar wasanaethau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig.

## Casgliadau

### Cylch dieflig

- Mae'r ymagwedd a gymerir gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol tuag at gyflawni eu cyfrifoldebau i Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig yn ysgogi ac yn parhau cylch dieflig o fethiant i ddarparu gwasanaethau, a chysylltiadau hiliol gwael.

    - Mae dros ddwy ran o dir o'r awdurdodau lleol wedi profi tensiynau yn eu cymunedau ynghylch safleoedd, wedi eu hawdurdodi a heb eu hawdurdodi, neu yn cyfaddef bod gelyniaeth gyffredinol ymhlith y cyhoedd tuag at Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig.

"Nid oes unrhyw gyfyngiadau, does dim byd yn berthnasol iddyn nhw [Teithwyr Gwyddelig]...maent yn cymryd mantais o gymdeithas ffeindiach." *Un o'r trigolion lleol*

- Mae ymddygiad anghyfrifol lleiafrif bachan o Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig yn dyfnhau gelyniaeth gyhoeddus tuag at y grwpiau hyn yn gyffredinol, ac yn niweidio cysylltiadau cymunedol.

- Ychydig y mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn ei wneud i ddod o hyd i atebion tymor hir i'r problemau sylfaenol, nac i annog pob parti i fod â mwy o gydymdeimlad tuag at ei gilydd. Mae cyfarfodydd cyhoeddus mawr yn troi yn ralïau sy'n pwyso am roi stop ar ddarparu safleoedd, tra bo datganiadau annoeth yn y cyfryngau gan rai cynghorwyr yn gwneud y sefyllfa hyd yn oed yn fwy ymfflamychol.

- Y canlyniad yw tensiwn a gelyniaeth gynyddol, sy'n rhoi cynghorwyr o dan bwysau dwys gan y cyhoedd i beidio â darparu safleoedd neu wasanaethau ar gyfer safleoedd. Mae llawer o gynghorwyr yn darganfod eu bod mewn sefyllfa 'catch 22': mae dicter ymysg y cyhoedd ynglŷn â gwersylloedd a datblygiadau heb eu hawdurdodi – canlyniad gweladwy angen heb ei fodloni am safleoedd – yn codi rhwystr gwleidyddol i ymdrin â phrif achos y broblem, sef prinder safleoedd.

"Mae pobl sy'n ethol cynghorwyr yn drigolion; gyda Theithwyr, ychydig iawn sydd â neu sy'n trafferthu i ddefnyddio pleidlais. Ein tueddiadau naturiol yw gwarchod hawliau trigolion." *Arweinydd y Cyngor*

- Caiff llawer o gynghorwyr eu hunain yn methu â rhoi arweiniad lleol cryf ar y materion hyn, ac yn ymateb i bwysau naill ai drwy wneud cyn lleied â phosibl i ymdrin â phrinder safleoedd, neu drwy wrthwynebu darparu safleoedd a gwasanaethau. Yn aml mae hyn yn mynd law yn llaw gyda dulliau 'anffurfiol' o ddarparu ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig sy'n caniatáu i gynghorwyr ddiwallu anghenion yn rhannol heb ddenu beirniadaeth gyhoeddus.

- Mae hyn yn ychwanegu at y prinder safleoedd (a'r tebygolrwydd y bydd gwersylloedd a datblygiadau heb eu hawdurdodi yn digwydd) ac yn arwain at adnoddau annigonol ar gyfer rheoli safleoedd cyhoeddus, a gwersylloedd heb eu hawdurdodi - sy'n ffynhonnell tensiynau yn y lle cyntaf - gan gwblhau'r cylch dieflig.

## Canlyniadau cyfreithiol a chymdeithasol

- Nid yw'r modd y mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn darparu safleoedd Sipsiwn, a gwasanaethau ar gyfer safleoedd, yn fuddiol i unrhyw un: mae Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig yn methu â dod o hyd i lety na gwasanaethau addas ac mae pawb yn dioddef y canlyniadau amgylcheddol ac ariannol.

### Peryglon methu â chydymffurfio â'r gofynion cenedlaethol newydd ar gyfer safleoedd Sipsiwn

- O dan y fframwaith polisi cenedlaethol newydd ar gyfer darparu safleoedd, mae'n rhaid i awdurdodau lleol asesu anghenion yn eu hardal, nodi lleoliadau penodol ar gyfer safleoedd yn eu cynlluniau ac ymgynghori â'r cyhoedd yn gynnar. Tra dylai hyn arwain at gynnydd sylweddol mewn safleoedd, gall gwrthwynebiadau i argymhellion awdurdodau hefyd godi pan ddynodir lleoliadau posibl.

- Ni fydd gweithredu'r polisi newydd yn hawdd a gall awdurdodau lleol ddisgwyl dod o dan bwysau cyhoeddus trwm i wrthwynebu cyflawni eu cyfrifoldeb. Noda'r darganfyddiadau, oni bai eu bod yn newid yr agwedd a gymerant ar hyn o bryd, y bydd llawer yn ei chael yn anodd goresgyn y rhwystrau.

### Peryglon methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a chysylltiadau hiliol da

- Nid yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn ystyried sut mae eu polisïau a'u gwasanaethau prif ffrwd, neu'r rhai sydd wedi eu targedu, yn effeithio ar Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig, neu sut y mae'r modd y maent yn rheoli'r gwasanaethau hyn yn effeithio ar weddill y gymuned, a chysylltiadau hiliol. Ni chymerir unrhyw rai o'r materion hyn i ystyriaeth yn gyffredinol wrth gynllunio neu wrth werthuso gwasanaethau.

- Golyga'r methiant i gasglu data perthnasol a monitro effeithiau eu polisïau fod awdurdodau lleol yn gwybod dim am unrhyw wahaniaethau rhwng grwpiau ethnig gwahanol yng nghanlyniadau eu gwasanaethau. Awgryma hyn, ynghyd â'r ffaith eu bod yn peidio ag ystyried tystiolaeth tensiynau cymunedol, fod llawer mewn perygl difrifol o beidio â chydymffurfio â'r ddyletswydd.

**Rhwystrau i integreiddio**

- Mae llawer o Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig yn byw yn gyfochrog â, ond ar wahân i, eraill yn y gymuned. Mae camddealltwriaeth a stereoteipiau o'r naill du yn gyffredin iawn, sy'n aml yn cael eu hysgogi gan y cyfryngau, gyda dicter a gelyniaeth fel yr unig bethau sy'n cael eu cyfnewid rhwng Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig a gweddill y gymuned.

"Giang o sipsiwn yn adeiladu 'stad' 16 o gartrefi mewn llecyn hardd."
*Pennawd yn y cyfryngau*

"Sipsiwn yn meddiannu pentref arall yn Lloegr dros nos, ac mae'n ymddangos nad oes unrhyw beth y gall unrhyw un ei wneud i'w stopio." *Pennawd yn y cyfryngau*

"Cliriwch dir peryglus y sipsiwn." *Pennawd yn y cyfryngau*

- Mae cymunedau integredig yn dibynnu ar gydraddoldeb, cyfranogiad a rhyngweithio; mae'r rhan fwyaf o ardaloedd awdurdodau lleol ymhell o gyflawni unrhyw rai o'r rhain mewn perthynas â Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig; mae'r ffocws yn parhau yn bennaf ar yr hyn sy'n rhannu pobl, yn hytrach nag ar yr hyn sy'n eu huno.

    - Mae'r gwasanaethau y mae Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig yn eu derbyn gan eu hawdurdod lleol yn amlwg yn llai ffafriol na'r rhai hynny y mae'r cyhoedd ehangach yn eu mwynhau, tra bo rhai heddluoedd yn methu â gwarchod Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig ac yn methu â gorfodi'r gyfraith yn eu herbyn mewn dull cytbwys a chymesur.

    - Nid yw Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig yn cymryd unrhyw ran yn y gwaith o lunio penderfyniadau lleol, yn rhannol oherwydd mai ychydig iawn o hyder sydd ganddynt yn y prosesau, yn rhannol oherwydd nad yw'r trefniadau ar gyfer ymgynghori â hwy wedi eu cynllunio i'w cynnwys, ac yn rhannol oherwydd mai ychydig o gyswllt sydd gan gynghorwyr lleol â hwy.

    - Yr unig arwydd gweladwy o ryngweithio rhwng Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig ac aelodau eraill y cyhoedd yw'r trafodaethau tanbaid ynglŷn â safleoedd, a'r gwrthdaro ynglŷn â datblygiadau heb eu hawdurdodi. Anaml y daw'r adrannau hyn o'r gymuned at ei gilydd i drafod y busnes bob dydd o fyw. Mae llawer o Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig yn amharod i ymwneud â'r awdurdod lleol na gweddill y gymuned, sy'n parhau â'i gelyniaeth yn eu herbyn.

## Y ffordd ymlaen

Ein nod yw disodli'r cylch dieflig o angen heb ei fodloni a gelyniaeth y cyhoedd y mae'r ymchwiliad hwn wedi tynnu sylw ato a rhoi yn ei le agwedd gynaliadwy at gynllunio ac at ddarparu a rheoli safleoedd Sipsiwn yng Nghymru a Lloegr. I'r perwyl hwnnw, bwriedir i'r argymhellion sy'n dilyn, a ysbrydolwyd gan weledigaeth y CRE o gyfle a chyfrifoldebau cyfartal, cyfranogiad cyfartal a rhyngweithio cymdeithasol, cadarnhaol, gyflawni'r amcanion craidd canlynol:

- gweithredu'r fframwaith polisi cenedlaethol newydd ynghylch asesu angen, darparu a rheoli safleoedd, cynllunio a gorfodi yn effeithiol i sicrhau safleoedd digonol, da a chyfreithiol;
- perthynas gadarnhaol a chysylltiadau da rhwng Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig ac aelodau eraill o'r cyhoedd;
- arweinyddiaeth leol gref ynglŷn â chydraddoldeb a safleoedd Sipsiwn oddi wrth gynghorwyr plwyf a chymuned lleol, ac arweinyddiaeth gan Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig;
- gwasanaethau o ansawdd, yn y brif ffrwd a'r rhai hynny a ddatblygwyd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig ym mhob math o lety, drwy strategaethau wedi eu cydlynu sydd wedi eu cysylltu i weithrediadau a llinell flaen;
- sail tystiolaeth gref ar gyfer datblygu polisïau a gwasanaethau;
- fframwaith rheoli perfformiad cadarn ar gyfer gwasanaethau ar safleoedd Sipsiwn, sy'n gosod safonau sy'n gymharol â'r rheini mewn tai cymdeithasol confensiynol;
- plismona wedi ei dargedu ac sy'n gymesur ar safleoedd Sipsiwn, a fydd yn ennill hyder trigolion y safleoedd ac aelodau eraill y cyhoedd;
- cyflawni'r amcanion hyn drwy weithredu'r ddyletswydd statudol ar awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol gwasanaethau'r heddlu, yn llawn ac yn effeithiol er mwyn dileu gwahaniaethu hiliol anghyfreithlon a hyrwyddo cyfle cyfartal a chysylltiadau hiliol da.

Mae ein hargymhellion yn mynd y tu hwnt i swyddogaethau awdurdodau lleol a'r heddlu, gan nodi'r rolau pwysig y mae'n rhaid i sefydliadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol eraill, a Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig eu hunain, hefyd eu chwarae i sicrhau cynnydd yn y maes hwn.

Rhestrir y prif argymhellion isod. I weld y rhestr yn llawn, gweler www.cre.gov.uk/GTinquiry

# Prif argymhellion

## Sefydliadau'r llywodraeth

**Dylai'r llywodraeth:**

- Ddatblygu amserlen realistig ond uchelgeisiol ar gyfer awdurdodau lleol i ddynodi tir ar gyfer safleoedd, a lle bo hynny'n angenrheidiol eu sefydlu, a gofalu bod hyn yn cael ei wneud. Dylai fod yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol hefyd gynnwys adroddiadau ynglŷn â'r cynnydd a wnaethant mewn dynodi safleoedd yn eu hadroddiadau monitro blynyddol ar eu fframweithiau datblygu lleol.

- Ei gwneud yn ofynnol i fyrddau tai rhanbarthol a byrddau cynllunio rhanbarthol (ac unrhyw gyrff sy'n cael eu huno) wneud hyrwyddo cydraddoldeb hil a chysylltiadau hiliol da yn greiddiol i'w gwaith dyrannu tir ar gyfer safleoedd i Sipsiwn. Dylai hyn gynnwys eu gwaith gydag awdurdodau lleol unigol ar ddatblygu strategaethau tai, canfod tir ar gyfer safleoedd, ac ystyried ceisiadau am gyllid ar gyfer safleoedd Sipsiwn.

- Datblygu dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer safleoedd cyhoeddus, sy'n gosod safonau ar gyfer ansawdd a rheolaeth sy'n rhai y gellir eu cymharu â'r rhai ar gyfer llety confensiynol.

- Llunio canllawiau wedi eu diweddaru ar gyfer awdurdodau lleol ynglŷn â chynllunio a rheoli safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig.

- Ystyried datblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer annog a chefnogi awdurdodau lleol a mudiadau gwirfoddol yn y brif ffrwd i gymryd y cam cyntaf i hyrwyddo integreiddiad cymdeithasol a chyfranogiad dinesig, gan gynnwys strategaethau ar gyfer atal a datrys gwrthdaro.

- Cyllido datblygiad pecyn adnoddau ar gyfer datrys gwrthdaro, i'w ddefnyddio gan awdurdodau lleol mewn perthynas â safleoedd, cynnal rhaglen beilot o'r pecyn a'i ddosbarthu i awdurdodau lleol.

- Ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol fonitro a darparu data ar geisiadau cynllunio, canlyniadau a gorfodaeth, ac ar dai a digartrefedd, yn ôl grŵp hil, gan ddefnyddio dau gategori ar wahân ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig.

- Ei gwneud yn ofynnol i heddluoedd gasglu gwybodaeth am Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig, fel dau gategori ethnig ar wahân.

- Cyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol ynglŷn â datblygu strategaethau digartrefedd sy'n ystyried anghenion Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig am lety, cyngor a chefnogaeth.

- Sicrhau, yn y meysydd gwaith sy'n effeithio ar Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig, gan gynnwys gwaith i ymdrin ag amddifadedd cymdeithasol ac i hyrwyddo

cydlyniad cymdeithasol, fod pynciau sy'n ymwneud â Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig yn cael eu cydnabod a'u cyllido yn yr un modd ag a wneir ar gyfer grwpiau eraill.

### Dylai swyddfeydd y llywodraeth ar gyfer y rhanbarthau:

- Sicrhau, ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol, fod strategaethau gofodol rhanbarthol a fframweithiau datblygu lleol yn rhoi ystyriaeth briodol i'r angen i ddarparu llety, a bod awdurdodau lleol yn darparu neu'n hwyluso safleoedd addas, ac yn gweithio gydag awdurdodau yn yr haen uchaf i gydlynu darpariaeth ar draws rhanbarthau.

### Dylai awdurdodau lleol:

**Arweinyddiaeth, strategaeth ac arfer**

- Ddatblygu gweledigaeth gorfforaethol holistig ar gyfer yr holl waith ar Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig, a'i hangori o fewn y strategaeth gymunedol, y fframwaith datblygu lleol, ac unrhyw strategaeth berthnasol arall, gan gynnwys y cynllun cydraddoldeb hiliol.

- Adolygu'r holl bolisïau ar lety ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig, i sicrhau ymagwedd tymor hir, strategol ac wedi ei chydlynu sy'n hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a chysylltiadau hiliol da. Dylai hyn gynnwys polisi ar gynllunio a darparu safleoedd, rheoli gwersylloedd wedi eu hawdurdodi a heb eu hawdurdodi a thai confensiynol, a chael ei gefnogi gan gasglu data ac ymgynghori gyda chymunedau lleol. Dylai strategaeth ynglŷn â llety gael ei chysylltu â meysydd gwasanaeth ehangach, megis addysg ac iechyd ac â strategaeth gyfathrebu.

- Dynodi cynghorydd ar lefel cabinet (neu gyfwerth), a swyddog sydd ddim is na lefel cyfarwyddwr cynorthwyol, i gydlynu gwaith yr awdurdod ar safleoedd (wedi eu hawdurdodi a heb eu hawdurdodi), i ofalu ei fod yn gyson ar draws adrannau, ac yn gysylltiedig â'i waith ar gydraddoldeb.

- Datblygu system rheoli perfformiad gadarn ar gyfer pob agwedd o wasanaethau ar gyfer safleoedd Sipsiwn, o fewn fframwaith llety ehangach, gan gynnwys darparu a rheoli safleoedd a rheoli gwersylloedd heb eu hawdurdodi. Cynnwys y swyddogaethau hyn mewn adolygiadau mewnol o wasanaethau.

**Y ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a chysylltiadau hiliol da**

- Ychwanegu dau gategori ar wahân ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig yn yr holl drefniadau monitro ethnig, a chymryd camau i'w hannog i ddarparu gwybodaeth am eu hethnigrwydd.

- Gofalu bod y ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a chysylltiadau hiliol da, a materion yn ymwneud â Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig, yn cael eu hysgrifennu i mewn i bob partneriaeth gyda'r heddlu, a darparwyr addysg a

gwasanaethau iechyd, ac i'r holl drefniadau caffael perthnasol, gan gynnwys y rhai hynny gyda hyfforddwyr allanol, rheolwyr safleoedd a beilïaid.

**Safleoedd cyhoeddus**

- Cynnal asesiad dibynadwy a llawn o'r angen am safleoedd preswyl a safleoedd i symud drwyddynt (fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Tai 2004), drwy sicrhau fod holiaduron yn rhoi ystyriaeth i draddodiadau diwylliannol Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig, a bod staff sy'n gyfrifol am yr asesiad wedi eu hyfforddi i ddeall anghenion y grwpiau hyn, ar safleoedd (gan gynnwys safleoedd preifat a chyhoeddus, a gwersylloedd heb eu hawdurdodi) ac ym maes tai.

- Adolygu safleoedd, a threfniadau ar gyfer eu rheoli (gan gynnwys polisïau dyrannu, gwasanaethau atgyweirio a chostau cyfleustodau) i sicrhau eu bod yn darparu gwasanaethau hanfodol, ac yn ôl safonau y gellir eu cymharu â'r rhai mewn tai cymdeithasol confensiynol.

- Ymgynghori â phawb y bo hyn yn ymwneud â hwy mor fuan â phosibl yn ystod y gwaith o ddatblygu safle, a sicrhau bod holl gamau ymgynghori ar wersylloedd heb eu hawdurdodi, a safleoedd cyhoeddus a phreifat arfaethedig, yn caniatáu i Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig, yn ogystal ag aelodau eraill y cyhoedd, gymryd rhan lawn. Sicrhau eu bod yn cael eu cadeirio yn effeithiol, ac yn cyfrannu at well perthynas rhwng gwahanol grwpiau.

- Datblygu polisïau ffurfiol at ddyrannu lleiniau ar gyfer pob safle newydd, sy'n debyg i'r rhai ar gyfer tai confensiynol, a llunio amserlen resymol ar gyfer ymestyn y polisïau i safleoedd sy'n bodoli'n barod.

**Cynllunio**

- Cyfeirio at Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig yn y datganiad cynnwys cymunedau (sy'n egluro sut yr ymgynghorir â phob grŵp ynghylch polisi cynllunio), a chymryd camau ymarferol i sicrhau eu bod yn cymryd rhan ystyrlon, gan ddatblygu ar gysylltiadau sy'n bodoli'n barod lle bo hynny'n bosibl.

- Rhoi cyngor penodol i Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig, yn gynnar, ynglŷn â'r tir mwyaf addas ar gyfer defnydd preswyl, ac ynghylch sut i baratoi ceisiadau, a'u helpu i ganfod y wybodaeth sy'n angenrheidiol i gefnogi eu cais.

- Datblygu polisi mewnol ynglŷn â sut i ymdrin â sylwadau hiliol, a gofalu bod swyddogion yn gwybod sut i'w ddefnyddio, fel mai dim ond ystyriaethau perthnasol yn ymwneud â'r cais a gyflwynir i aelodau'r pwyllgor cynllunio.

- Monitro'r holl geisiadau cynllunio ac enghreifftiau o orfodi yn gynnar, yn ôl math a grŵp hil, gan gynnwys Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig, fel dau gategori ar wahân, er mwyn asesu effeithiau polisïau ac arfer ar wahanol grwpiau hil.

- Ystyried defnyddio'r pwyllgor trosolwg a chraffu, neu unrhyw fecanwaith ffurfiol addas arall, i asesu effeithiau unrhyw benderfyniad mawr i orfodi

gofynion cynllunio ar safleoedd Sipsiwn ar gydraddoldeb hiliol a chysylltiadau rhwng gwahanol hiliau.

**Gwersylloedd heb eu hawdurdodi**

- Adolygu a monitro polisïau ar gyfer ymdrin â gwersylloedd heb eu hawdurdodi, i ofalu eu bod yn hyrwyddo mynediad at wasanaethau i'r deiliad, a chysylltiadau hiliol da rhyngddynt â grwpiau eraill; wrth wneud hyn dylai awdurdodau ganolbwyntio yn arbennig ar ddarparu cyfleusterau sylfaenol, asesu anghenion lles a chyfathrebu'n effeithiol gyda'r cyhoedd.

- Gofalu bod y ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a chysylltiadau hiliol da yn cael ei chynnwys o fewn unrhyw gontractau ar gyfer rheoli, neu droi pobl allan o, wersylloedd heb eu hawdurdodi, a bod contractwyr yn cael canllawiau clir ynghylch sut y gallai hyn effeithio ar eu polisi a'u harfer, a'u bod yn cael eu monitro o ran eu cydymffurfiad â'r canllawiau.

**Tai**

- Cynnal ymchwil i ganfod niferoedd ac anghenion Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig mewn tai confensiynol, a chynnwys y grwpiau hyn yn benodol mewn polisi tai perthnasol (gan gynnwys strategaethau tai, digartrefedd a chefnogi pobl), gyda chysylltiadau at wasanaethau sy'n gysylltiedig â safleoedd.

- Cofnodi, ymchwilio a monitro'n ffurfiol yr holl ddigwyddiadau y rhoddwyd adroddiad yn eu cylch gan Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig am aflonyddu hiliol a wnaed mewn tai confensiynol, cymryd camau i'w hannog i gyflwyno adroddiadau, a datblygu strategaethau ataliol wedi eu targedu.

**Hyrwyddo cysylltiadau hiliol da a chymunedau integredig**

- Annog deialog a rhyngweithio cadarnhaol rhwng Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig a grwpiau eraill, drwy gysylltu'n effeithiol gydag arweinwyr ac aelodau o bob cymuned.

- Hyrwyddo gwell dealltwriaeth gyhoeddus o Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig, a chanlyniadau yr am safleoedd na ddiwallwyd; a chymryd camau i wrthsefyll stereoteipiau yn y cyfryngau ac yng nghanfyddiad y cyhoedd.

- Annog a chefnogi mudiadau gwirfoddol yn y brif ffrwd i greu pontydd rhwng Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig ac aelodau eraill o'r cyhoedd.

## Dylai heddluoedd:

- Gynnwys Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig mewn strategaethau plismona cymdogaeth yn y brif ffrwd, i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a chysylltiadau hiliol da.

- Targedu Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig unigol a amheuir o ymddygiad gwrthgymdeithasol a throsedd ar safleoedd cyhoeddus, preifat a heb eu

hawdurdodi, ac nid cymunedau cyfain, a gweithio gyda phobl o'r grwpiau hyn ac awdurdodau lleol i ddatblygu mesurau ataliol.

- Trin Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig, pan fyddant yn ddioddefwyr ac yn rhai a amheuir o drosedd, fel aelodau o'r gymuned leol, ac mewn ffyrdd sy'n cryfhau eu hymddiriedaeth a'u hyder yn yr heddlu.
- Darparu hyfforddiant i'r holl swyddogion perthnasol ynglŷn â'r gwasanaethau y mae ar Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig eu hangen, fel y gall swyddogion wneud eu gwaith yn fwy effeithiol, a hybu cysylltiadau da rhwng yr holl grwpiau yn y gymuned a wasanaethir ganddynt.
- Adolygu gweithdrefnau ffurfiol ac anffurfiol ar gyfer plismona gwersylloedd heb eu hawdurdodi, i ddynodi a dileu arferion a allai fod yn rhai gwahaniaethol, a sicrhau fod y gweithdrefnau yn hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a chysylltiadau hiliol da.

**Dylai cynghorau plwyf a chymuned:**

- Ofalu bod cynghorwyr yn cynrychioli'r holl grwpiau yn eu cymuned leol, a'u bod yn ymwybodol o'r ddyletswydd statudol i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a chysylltiadau hiliol da, a'i goblygiadau ymarferol mewn perthynas â Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig.

## Arolygiaethau

**Dylai'r Comisiwn Archwilio:**

- Gynnwys ystyriaeth o Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig ym mhob agwedd berthnasol o'i waith archwilio ac arolygu, gan gynnwys asesiadau perfformiad cynhwysfawr, rhoi sylw arbennig i gwestiynau yn ymwneud ag arweinyddiaeth, hyfforddiant, darparu a rheoli gwasanaethau, a gwariant cymharol awdurdodau lleol ar ddarparu a rheoli safleoedd cyfreithiol ac ar orfodaeth.

**Dylai'r arolygiaeth gynllunio:**

- Ystyried, wrth wneud penderfyniadau ar apeliadau cynllunio safleoedd Sipsiwn, a dorrwyd y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol gan yr awdurdod lleol wrth arfer ei swyddogaethau cynllunio (gan gynnwys darpariaethau gwahaniaethol y ddeddf a'r ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a chysylltiadau hiliol da).

**Dylai Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi:**

- Gynnwys Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig yn yr holl archwiliadau perthnasol o berfformiad yr heddlu.

## Sefydliadau eraill

**Dylai'r Gymdeithas Llywodraeth Leol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:**

- Ystyried y canllawiau atodol y gallai awdurdodau lleol fod eu hangen mewn perthynas â darparu safleoedd (ac mewn perthynas â gorfodaeth), gan roi sylw arbennig i'w heffeithiau ar gysylltiadau cymunedol.

- Dynodi a datblygu strategaethau i fodloni anghenion hyfforddi mewn awdurdodau lleol sy'n deillio o'r fframwaith polisi cenedlaethol newydd ar ddarparu safleoedd, ac o'r ddyletswydd statudol i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a chysylltiadau hiliol da, gan gynnwys hyfforddiant ynglŷn â Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig.

**Dylai Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu:**

- Ddynodi a rhoi cyhoeddusrwydd i arfer da wrth ymdrin â throseddau yn erbyn Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig, a throsedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar bob safle, ac wrth reoli gwersylloedd heb eu hawdurdodi mewn modd sy'n hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a chysylltiadau hiliol da, gan dynnu ar unrhyw arfer da a ddatblygwyd gyda grwpiau eraill o leiafrifoedd ethnig.

**Dylai'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol:**

- Wneud cydraddoldeb hiliol a chynllunio ar gyfer safleoedd Sipsiwn yn rhan benodol o'r rhaglen datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer pob swyddog cynllunio.

- Ychwanegu at ei ganllawiau ynglŷn â 'sylwadau hiliol' gyngor penodol ynglŷn â thrin ceisiadau ar gyfer safleoedd Sipsiwn.

**Dylai'r Asiantaeth Gwella a Datblygu:**

- Ddatblygu, o fewn modiwlau presennol ei raglen academi arweinyddiaeth ar gyfer cynghorwyr, linyn penodol ynglŷn ag arweinyddiaeth wleidyddol, sicrhau consenswS trawsbleidiol a chysylltu â chymunedau lleol yng nghyd-destun safleoedd Sipsiwn.

- Datblygu hyfforddiant swydd-benodol ar gyfer swyddogion llywodraeth leol ar fuddiannau ac anghenion Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig, gan gynnwys dealltwriaeth o sut mae'r ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a chysylltiadau hiliol da yn berthnasol i'r grwpiau hyn.

**Dylai'r Asiantaeth Gwella a Datblygu (neu'r Comisiwn Archwilio):**

- Ddatblygu llyfrgell o ddangosyddion perfformiad lleol ynglŷn â darparu a rheoli safleoedd, i'w defnyddio fel meincnodau o arfer da gan awdurdodau lleol.

**Dylai Cymdeithas Genedlaethol Cynghorau Lleol ac Unllais Cymru:**

- Godi ymwybyddiaeth ymhlith cynghorau plwyf a chymuned o'u cyfrifoldebau statudol i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a chysylltiadau hiliol da mewn perthynas â Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig, a'u cefnogi a'u cynghori.

## Y sector gwirfoddol

**Dylai cyrff cyllido annibynnol:**

- Ystyried pwysigrwydd cynnwys cynlluniau Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig i hyrwyddo cydraddoldeb ac integreiddio cymdeithasol wrth ddyrannu cyllid i fudiadau gwirfoddol a chymunedol.

**Dylai Cyngor Cenedlaethol y Mudiadau Gwirfoddol:**

- Gynnwys Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig mewn rhaglenni gwaith a hyfforddiant perthnasol, ac annog mudiadau gwirfoddol yn y brif ffrwd i gynnwys aelodau'r grwpiau yn eu gwaith.

**Dylai mudiadau gwirfoddol sy'n gweithio gyda Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig:**

- Annog Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig i gofrestru eu pleidlais, ac i ymarfer eu hawliau pleidleisio.

**Dylai cynrychiolwyr Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig:**

- Gysylltu â mudiadau gwirfoddol yn y brif ffrwd i ymchwilio i ffyrdd o gynyddu rhyngweithio a chyfranogiad cymdeithasol.

- Ystyried ffyrdd pellach o gael deialog adeiladol gydag awdurdodau lleol, i wneud yn siŵr fod anghenion Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig yn cael eu deall a'u diwallu, ac i arddangos eu hymrwymiad i gyfranogiad.

COMISIWN
CYDRADDOLDEB
HILIOL
www.cre.gov.uk

**Swyddfeydd**


**Pencadlys**
St Dunstan's House
201–211 Borough High Street
London
SE1 1GZ
☎ 020 7939 0000

**Birmingham**
Lancaster House (3rd floor)
67 Newhall Street
Birmingham
B3 1NA
☎ 0121 710 3000

**Manceinion**
Maybrook House (5th floor)
40 Blackfriars Street
Manchester
M3 2EG
☎ 0161 835 5500

**Yr Alban**
The Tun
12 Jackson's Entry
off Holyrood Road
Edinburgh
EH8 8PJ
☎ 0131 524 2000

**Cymru**
Tŵr y Ddinas (3ydd Llawr)
Ffordd y Brodyr Llwydion
Caerdydd
CF10 3AG
☎ 02920 729200



© Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol


Mai 2006
ISBN 1 85442 594 3 (wedi ei argraffu)
ISBN 1 85442 595 1 (PDF)

Argraffwyd gan Wasg Belmont
Dyluniwyd gan Tattersall Hammarling & Silk Ltd


**Datganiad cenhadaeth y CRE**

Rydym yn gweithio dros gymdeithas deg ac integredig, lle caiff amrywiaeth ei werthfawrogi. Rydym yn defnyddio perswâd a'n pwerau o dan y gyfraith i roi cyfle cyfartal i bawb i fyw yn rhydd o ofn, gwahaniaethu, rhagfarn a hiliaeth.